**Sylwadau am**
# Reoliadau Llywodraeth Leol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2010
[O.S. **Rhif 685 (Cy.67)]**

*Sylwadau anffurfiol yw'r rhain yn hytrach na dehongliad awdurdodol o'r gyfraith. Os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch am ystyr y Rheoliadau, rydym yn awgrymu eich bod, lle y bo hynny'n briodol, yn ceisio cyngor cyfreithiol drosoch eich hun.*

## RHAGARWEINIAD

Mae **Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2010** [OS 2010/685 (Cy67)] ("Rheoliadau 2010") bellach mewn grym. Fe'u gwnaed a'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mawrth 2010. Daw dau o'r rheoliadau i rym ar 31 Mawrth 2009 (gweler Paragraff 2 isod) a bydd y gweddill yn dod i rym o 1 Ebrill 2010 ymlaen.

Mae'r ddolen i'r rheoliadau diwygio i'w gweld yma:

http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2010/pdf/wsi_20100685_mi.pdf

Mae'r rheoliadau'n diwygio **Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) 2003** ("Rheoliadau 2003") [OS 2003/3239], fel y'u diwygiwyd gan amryfal Offerynnau Statudol eraill - gweler y manylion isod - ac maent yn cael eu gwneud o dan **Ddeddf Llywodraeth Leol 2003** ("Deddf 2003").

Dyma'r dolenni i'r ddeddfwriaeth arall y cyfeirir ati yn y paragraff uchod:

OS 2003/3239 http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2003/wsi_20033239_en.pdf
OS 2004/1010 http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2004/wsi_20041010_en.pdf
SI 2006/944 http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2006/wsi_20060944_mi.pdf
SI 2007/1051 http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2007/pdf/wsi_20071051_mi.pdf
SI 2008/588 http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2008/pdf/wsi_20080588_mi.pdf
SI 2009/560 http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2009/pdf/wsi_20090560_mi.pdf
2003 Act http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2003/20030026.htm

Mae bwletin ddiwedd blwyddyn Panel Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol (LAAP) y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) (Bwletin LAAP 84), a gyhoeddwyd yr wythnos hon, yn cyfeirio (ymysg nifer o bethau eraill) at gynnwys y rheoliadau hyn. Mae'r bwletin hwnnw i'w weld yma:

http://www.cipfa.org.uk/pt/pt_details_l.cfm?news_id=60851

## 2. Amseru

Mae Rheoliadau 2010 yn dod i rym at ddibenion rheoliadau 3(2) a(3) (Budd-daliadau ymddeol) a 6 (Lleihad yng ngwerth buddsoddiadau penodedig) ar 31 Mawrth 2010. At bob diben arall, mae'r rheoliadau'n dod i rym o 1 Ebrill 2010 ymlaen, a byddant yn gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru.

## 3. Budd-daliadau Ymddeol

Mae'r rheoliadau'n diogelu'r awdurdodau rhag baich a allai fod yn un anodd iawn dygymod â hi ac sy'n cael ei roi arnynt gan safonau cyfrifyddu sy'n ymwneud â rhwymedigaethau pensiwn hirdymor. Pe na bai'r rheoliadau'n gwneud y ddarpariaeth hon, byddai'n rhaid i'r awdurdodau fynd ati yn nawr i godi ar gyfrifon refeniw werth llawn y rhwymedigaethau hyn yn y dyfodol. Mae Rheoliad 24 yn darparu y caiff y swm a godir ar refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol gyfateb i'r budd-daliadau pensiwn sy'n daladwy *mewn gwirionedd* yn ystod y flwyddyn honno. At ddibenion Rheoliad 24, mae Rheoliad 4(2) yn enwi'r amryfal gynlluniau pensiwn penodol y mae'r mesur hwn yn gymwys iddynt. Mae'r darpariaethau cyfrifyddu perthnasol i'w gweld yn nogfen y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) *Code of Practice on Local Authority Accounting in the United Kingdom (Pennod 6 - Budd-daliadau gweithwyr).*

Mae cyfeiriadau sy'n cael eu gwneud mewn deddfwriaeth sydd eisoes yn bod at gynlluniau budd-daliadau ymddeol penodol - sy'n ymwneud yn bennaf â gwasanaethau'r heddlu a'r gwasanaethau tân – wedi cael eu newid. Er mwyn sicrhau bod yr hyn sydd yn y rheoliadau yn cyfateb i'r enwau sydd gan y cynlluniau perthnasol ar hyn o bryd ac a fydd ganddynt yn y dyfodol, mae cyfeiriadau cyffredinol wedi cael eu rhoi ynddynt yn lle cyfeiriadau at gynlluniau penodol. Mae'r rheoliad sy'n ailddiffinio'r cyfeiriadau at fudd-daliadau ymddeol yn dod i rym o 31 Mawrth 2010 ymlaen.

## 4. Defnyddio derbyniadau cyfalaf

O dan y rheoliadau cyfredol, caniateir i'r awdurdodau lleol dalu'r costau sy'n gysylltiedig â gwaredu asedau sy'n dod o dan y Cyfrif Refeniw Tai drwy ddefnyddio rhan o'r derbyniad cyfalaf a gafwyd drwy werthu'r asedau hynny. Gan nad oedd y consesiwn hwn yn bod ar gyfer asedau eraill, barnwyd y gallai hynny atal yr awdurdodau rhag gwaredu asedau. Un o'r rhesymau posibl dros hyn yw bod yn rhaid defnyddio arian refeniw yn hytrach nag elw a wneir drwy werthu i dalu costau penodol (e.e. hysbysebu, ffioedd proffesiynol). O'r herwydd, mae'r caniatâd y cyfeirir ato uchod yn cael ei roi bellach ar gyfer asedau nad ydynt yn dod o dan y Cyfrif Refeniw Tai. Gan ei bod yn anodd rhagfynegi'r costau hyn, a chan y gallant fod yn fawr, mae amod na ddylai'r costau dan sylw fod yn fwy na 4% o'r derbyniad cyfalaf a geir drwy waredu ased. Nid yw'r sefyllfa o ran gwaredu asedau sy'n dod o dan y Cyfrif Refeniw Tai wedi newid, ac nid yw'r cyfyngiad o 4% yn gymwys yn yr achos hwnnw.

## 5. Ôl-dâl o ganlyniad i gyflogau anghyfartal

Mae rhwymedigaeth ar nifer o awdurdodau i ôl-dalu cyflog, a hynny ar ffurf cyfandaliadau, am eu bod wedi talu cyflogau anghyfartal yn y gorffennol. Yn unol ag arferion cyfrifyddu, mae'n ofynnol iddynt wneud darpariaeth ariannol yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol ar gyfer rhwymedigaethau a ragwelir yn y dyfodol, yn hytrach nag yn ystod y flwyddyn pryd y mae'r taliadau'n ddyledus. Mae gorfod ariannu'r darpariaethau hyn, sydd, yn aml, yn rhai mawr, cyn bod angen gwneud y taliadau, o anfantais i'r awdurdodau. Er mwyn diogelu'r awdurdodau yn hyn o beth, cyflwynwyd rheoliad yn 2007 a oedd yn golygu na fyddai'n rhaid iddynt godi ôl-daliadau cyflog ar refeniw tan y dyddiad y byddai'n rhaid iddynt wneud y taliadau. Rhagwelir y gallai gymryd dwy flynedd arall i'r mater hwn gael ei ddatrys. O'r herwydd, mae'r rheoliad lliniaru presennol wedi'i estyn tan 31 Mawrth 2013. Cynhwysir hefyd reoliad 24A(6) newydd sy'n gwneud y pwynt a ganlyn: os nodir ar 1 Ebrill 2013, neu cyn hynny, bod rhwymedigaeth ar awdurdod, bydd rheoliad 24A yn gymwys hyd yn oed os nad yw'r taliad yn ddyledus tan ar ôl y dyddiad hwnnw.

## 6. Lleihad yng ngwerth buddsoddiadau penodedig

Roedd newid a wnaed y llynedd drwy Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2009 yn golygu y gallai'r awdurdodau hynny oedd â buddsoddiadau mewn perygl mewn banciau yng Ngwlad yr Iâ ohirio, am y tro, roi swm amcangyfrifedig o'r neilltu i wneud iawn am unrhyw golledion yn sgil gostyngiadau yng ngwerth buddsoddiadau. Roedd y camau lliniaru dros dro hyn yn rhoi cyfle iddynt gael eu gwynt atynt nes iddi ddod yn fwy clir faint fyddai'r colledion gwirioneddol, pe bai unrhyw golledion o gwbl. Rhagwelwyd y byddai'r camau lliniaru hyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2011. Gan nad yw'r sefyllfa'n gwbl glir eto, bwriad y rheoliad hwn yw darparu ar gyfer estyn y dyddiad gwreiddiol tan 31 Mawrth 2012. Mae'n debyg y bydd y sefyllfa wedi'i datrys erbyn hynny. Daw'r rheoliad diwygio hwn i rym ar 31 Mawrth 2010.

## 7. Absenoldebau digolledol cronnol byrdymor

O dan safonau cyfrifyddu'r IFRS (Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol ) newydd, bydd yn ofynnol i'r awdurdodau fynd ati bob blwyddyn i godi swm ar gyfrifon refeniw am werth yr hawliau i wyliau nad yw gweithwyr wedi eu defnyddio erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r darpariaethau cyfrifyddu priodol i'w gweld yn nogfen y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) *Code of Practice on Local Authority Accounting in the United Kingdom (Pennod 6 – Budd-daliadau gweithwyr).* Bydd y symiau hyn yn uchel yn achos nifer o'r awdurdodau, yn benodol felly oherwydd natur contractau cyflogaeth athrawon. Erbyn 31 Mawrth 2010, bydd athrawon wedi cronni hawliau sylweddol, a fydd yn cael eu cymryd yn ystod haf 2010, ond o dan y rheolau newydd, bydd yn rhaid codi'r hawliau hyn ar gyfrifon refeniw yn 2009-10.

Er mwyn lliniaru'r effaith a gaiff y newid i safonau cyfrifyddu newydd yr IFRS, mae rheoliad newydd yn darparu bod hawliau i wyliau i'w codi ar gyfrifon refeniw yn ystod y flwyddyn ariannol pan fo'r absenoldeb gwyliau'n digwydd.

Efallai y byddai'n fuddiol hefyd ymhelaethu ar ddau bwynt. Yn gyntaf, y rheoliad sy'n pennu'r hyn sy'n effeithio ar y cyfrif refeniw yn y pen draw, ond y cod cyfrifyddu fydd yn pennu sut yr ydmrinnir â thâl gwyliau cronedig yn y Cyfrif Incwm a Gwariant. Bydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau gydymffurfio ag IAS 19. Yn ail, yng nghyd-destun cyfrifyddu ar gyfer ysgolion, dylid nodi na fydd angen codi tâl gwyliau cronedig ar y gyllideb ddirprwyedig: y rheoliad newydd fydd yn pennu'r hyn a fydd yn cael ei godi ar y gyllideb ddirprwyedig honno.

## 8. Dosbarthu Lesau

Mae awdurdodau, yn aml, yn berchen ar lesau ar adeiladau, gan roi lesau o'r fath hefyd (e.e. siopau, unedau diwydiannol), ac mae'r rhenti a gânt am y lesau hyn yn cyfrannu at eu refeniw. O dan safonau cyfrifyddu'r IFRS, wrth ymdrin â lesau ar eiddo at ddibenion cyfrifyddu, dylid eu trin fel lesau ar wahân ar gyfer tir ac ar gyfer adeiladau. Mae'r darpariaethau cyfrifyddu priodol i'w gweld yn nogfen y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) *Code of Practice on Local Authority Accounting in the United Kingdom (Pennod 4 – Asedau nad ydynt yn gyfredol)*.

Gallai'r newid hwn yn y darpariaethau cyfrifyddu olygu y bydd *lesau gweithredol* yn cael eu hailddosbarthu'n *lesau cyllid* a *lesau cyllid* yn cael eu hailddosbarthu'n *lesau gweithredol*. Yn y naill achos a'r llall, er nad yw'r ailddosbarthu hwn yn newid yr incwm a geir o dan y les, gall gael effaith andwyol ar yr hyblygrwydd sydd gan yr awdurdod i ddefnyddio'r adnoddau hynny i gwrdd â gwariant. Er mwyn diogelu'r awdurdodau rhag diffygion refeniw annisgwyl eleni, cyflwynwyd rheoliad newydd (24 I a J). Mae'r rheoliad hwn yn darparu y caiff yr awdurdodau, at ddibenion cyfrifyddu, ymdrin â'r arian a geir o dan lesau yn unol â'r arferion cyfrifyddu a oedd yn gymwys ar 31 Mawrth 2010.

Mae'n bwysig nodi mai rheoliad trosiannol yw hwn ar gyfer lesau sydd eisoes yn bod. Bydd yr awdurdodau, wrth roi lesau o hyn ymlaen, yn gwbl ymwybodol o'r safonau cyfrifyddu newydd. Felly, dim ond i lesau a oedd yn bod ar 31 Mawrth 2010 y mae'r rheoliad hwn yn gymwys. Dim ond ymdrin â'r achosion hynny lle y bo'r awdurdodau'n leswyr y mae'r rheoliad. Mae angen ymdrin mewn ffordd wahanol â goblygiadau'r newidiadau cyfrifyddu mewn achosion lle y bo'r awdurdodau'n lesddeiliaid. Darperir arweiniad yn hyn o beth yng Nghanllawiau diwygiedig Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Isafswm y Ddarpariaeth Refeniw.

## 9. Arferion Priodol

Mae Rheoliad 25 yn rhestru'r codau cyfrifyddu sy'n "arferion priodol". Mae nifer o newidiadau y mae angen eu nodi. Un o'r newidiadau pwysig yw bod unrhyw gyfeiriadau at godau yn rhai cyffredinol, a hynny fel na fydd angen diwygio rheoliadau yn y dyfodol o ganlyniad i newid enwau. Mae'r ymadrodd "*as may be amended or reissued from time to time (whether under the same title or not*"*)* yn ateb y diben yn hyn o beth.

Bwriedir ailenwi cod y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn 2010-11, felly mae'r cyfeiriad wedi'i newid er mwyn adlewyrchu enw'r cod newydd -

***Code of Practice on Local Authority Accounting in the United Kingdom*** - a fydd yn dod i rym o 1 Ebrill 2010 ymlaen.

Mewn perthynas â chynghorau cymuned a chyd-bwyllgorau mwy (h.y. sydd ag incwm neu wariant gros sy'n fwy nag £1 filiwn ar gyfer y flwyddyn ac ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol), yr arferion cyfrifyddu sydd yn y ddogfen "Governance and accountability for Local Councils: A Practitioners Guide 2008 (Wales)" yw'r arferion priodol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y sylwadau hyn, dylech gysylltu â:

LGF3L@wales.gsi.gov.uk
**Cyllid Llywodraeth Leol**
**Llywodraeth Cynulliad Cymru** **Ebrill 2010**